Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Hemoffilia a Gwaed wedi'i Heintio

Dyddiad: 24.1.24

Amser: 11:00–12:00

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Rhun ap Iorwerth AS | Cai Evans |
| Rhys Hughes | Lee Stay |
| Lynne Kelly | Tom Jones |
| Michael Imperato | Norman |
| Alex Still | Marcus Lewis |
| Mark Isherwood | Lucy O'Brien |
| Andrew Bettridge | Nigel Miller |
| Jane Jones | Paul May |
| Sue | Anthony Lane |
| Shauna | Michael O'Connell |
| Jodie | Sybil Fowler |
| Brian Longford | Tony |
| Christine Fox | Sam Richards |
| Bev Tum | Evelyn |
| Debbie James | |

## Cofnodion:

Rhun ap Iorwerth yn agor y cyfarfod

- Sicrhau bod y gwasanaethau cyfieithu'n gweithio
- Diolch i bawb am ddod a darllen yr ymddiheuriadau

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Rhun yn esbonio proses y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- **Cadeirydd: Rhun ap Iorwerth yn cynnig ei enw i barhau fel cadeirydd**
  - John Griffiths (Dirprwy)
  - Altaf Hussain (Dirprwy)
  - Peredur Owen Griffiths (Dirprwy)
- Neb yn gwrthwynebu – Rhun ap Iorwerth yn parhau fel cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol
- **Is-gadeirydd: Hefin David yn cynnig ei enw i barhau fel Is-gadeirydd**
  - John Griffiths (Dirprwy)
  - Altaf Hussain (Dirprwy)
  - Peredur Owen Griffiths (Dirprwy)
- Neb yn gwrthwynebu – Hefin David yn parhau fel Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol
- **Ysgrifenyddiaeth: Lynne Kelly (Haemophilia Wales) yn cynnig ei henw i barhau i ddarparu ysgrifenyddiaeth**
  - John Griffiths (Dirprwy)
  - Altaf Hussain (Dirprwy)

  - Peredur Owen Griffiths (Dirprwy)
- Neb yn gwrthwynebu – Lynne Kelly yn parhau fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol

<u>Eitem 1 – Lynne Kelly yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp</u>

- Yr adroddiad terfynol wedi'i ohirio tan 20 Mai
- Lynne yn rhoi crynodeb o hanes gwaith y comisiwn a'r hyn a oedd wedi'i gynnwys ym mhob adroddiad interim
- Trafod gwelliant Diana Johnson i'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion ym mis Rhagfyr 2023 sy'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i sefydlu corff digolledu hyd braich ledled y DU
- Ychwanegu ei fod wedi'i ddarllen yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ddiwrnod y cyfarfod, ond na fyddai'r adran ar y corff digolledu'n cael ei thrafod tan 5 Chwefror
- Lynne yn trafod llythyr Julie Morgan AS ar y cyd â Llywodraeth yr Alban ynghylch cyfarfod â'r Tâl-feistr Cyffredinol
- Lynne yn mynegi pryder efallai mai dim ond Cymru a Lloegr y byddai'r corff digolledu'n eu cwmpasu
- Pryderon yn cael eu codi hefyd ynghylch diffyg amserlen a chynllun ar gyfer sefydlu'r corff hyd braich
- Lynne yn dod â'i chyfraniad i ben drwy holi pam na all y gwaith hwnnw ddechrau nawr

<u>Eitem 2 – Michael Imperato yn rhoi diweddariad cyfreithiol</u>

- Mynegi pryderon na fydd iawndal yn cael ei dalu i'r DU gyfan
- Angen eglurhad pellach gan Syr Brian Langstaff ynghylch a yw'r argymhelliad yn argymell corff digolledu ledled y DU yn benodol
- Michael yn dweud ei fod o'r farn mai'r cam cyntaf yw sefydlu corff cysgodol, ac nad oes dim yn atal Llywodraeth y DU rhag gwneud hynny heddiw
- Cydnabod bod y gwaith manwl eto i'w wneud, ond bod Llywodraeth y DU fel petai'n llusgo'i thraed o ran yr elfennau sylfaenol
- Angen i'r elfennau sylfaenol ddechrau, a hynny ar fyrder, er mwyn rhoi hyder i ddioddefwyr y daw cyfiawnder
- Mynegi pryder fod dioddefwyr yn marw wrth aros am gyfiawnder, a dweud mai dyna pam ei bod mor bwysig gweithio'n gyflym
- Rhai'n dod at Lywodraeth Cymru i ofyn am iawndal, ond Llywodraeth Cymru yn glir bod hynny y tu allan i gymhwysedd datganoledig

<u>Eitem 3 – Gwahodd trafodaeth ehangach</u>

<u>Jodie – A fydd gwaith ar hyn yn cael ei ohirio tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol?</u>

- Rhun yn dweud y gallem ddyfalu ond nad yw hynny'n glir
- Michael yn awgrymu y gallai'r Llywodraeth bresennol fod am wario llawer o arian cyn yr etholiad cyffredinol nesaf, ond yn cytuno nad yw'n glir

- Lynne yn dweud na chafwyd ymrwymiad pendant gan yr wrthblaid swyddogol y byddai'n gweithredu ar fyrder yn hyn o beth
- Lynne yn codi'r ffaith y gofynnwyd i Penny Mordaunt AS a fyddai angen drama, yn debyg i'r un ar yr is-bostfeistri, er mwyn i'r mater hwn gael sylw ar yr agenda wleidyddol brif ffrwd
- Lynne yn esbonio bod sgyrsiau'n mynd rhagddynt i weld a fyddai'n bosibl dod â hyn i'r sgrin.
- Mae'n fater o allu gwneud hynny mewn ffordd sy'n crynhoi sgandal sydd mor eang
- Gallai fod rhywfaint o stigma hefyd ynghylch y rhai sy'n dioddef o salwch
- Rhun yn dweud bod adrodd straeon yn amlwg yn taro nerf gyda'r cyhoedd yn gyffredinol

<u>Norman – Yn pryderu bod Llywodraeth y DU yn petruso</u>

- Record bleidleisio Sunak yn y gorffennol yn awgrymu nad oes ots ganddo am y mater
- Gweinidogion sy'n gyfrifol am hyn wedi dibynnu'n ormodol ar bapurau briffio yn hytrach na dysgu am wir ddifrifoldeb y sefyllfa
- Gweinidogion hefyd yn amharod i wrando ar ddioddefwyr
- Yr unig reswm mae hyn yn dal i fod ar yr agenda yw bod y genhedlaeth nesaf o ddioddefwyr yn parhau â'r frwydr

<u>Anthony - Y GIG yng Nghymru ddim yn arddel safbwynt swyddogol</u>

- Michael yn nodi bod cyfreithiwr Llywodraeth yr Alban wedi ymddiheuro am hyn, tra bo cyfreithiwr Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy amwys wrth ymddiheuro ar ran ei Lywodraeth

- Rhun yn gwneud pwynt sy'n sefyll ar ei ben ei hun, sef y gallai newid Llywodraeth fod yn gyfle i orfodi gweithredu ar fyrder, ond bod rhaid cael trefn ar bethau er mwyn bwrw ymlaen â'r achos hwn mewn modd clir a threfnus

<u>Bev – Yn trafod ei phrofiad o geisio sicrhau bod drama'n cael ei gwneud am y sgandal hon</u>

- Mwy o ddiddordeb eto yn sgil drama ITV am yr is-bostfeistri
- Aeth ar i lawr ar ôl Covid
- S4C yn ystyried hyn ac yn barod i wrando ar ddioddefwyr
- Lynne yn tynnu sylw at broblem ariannu
- Rhun yn canmol BBC Cymru/S4C am eu cynyrchiadau drama yn ddiweddar ac yn meddwl bod y datblygiad hwn yn swnio'n obeithiol

<u>Sue – Rhoi llwyfan i ddioddefwyr</u>

- LBC yn gofyn i bobl siarad, ond dim ond am tua munud
- Pobl yn cael ysgytwad pan glywant am brofiadau, ond nid ydynt yn clywed digon am y mater
- Mae angen sicrhau bod mwy o sylw'n cael ei roi iddo

- Rhy hawdd iddo gwympo oddi ar yr agenda newyddion oherwydd materion mwy amserol
- Rhun – yr is-bostfeistri yn enghraifft glir fod ots gan y cyhoedd pan fyddant yn deall mwy am fanylion y stori
- Rhun yn canmol y gwaith mae Lynne yn ei wneud i sicrhau bod yr ymgyrch hon yn parhau

<u>Rhun – Yn cloi'r cyfarfod</u>

- Diolch i bawb am ddod ac i Lynne a Michael am gyfrannu
- Awgrymu y dylid pennu dyddiad newydd yn fuan ar gyfer y cyfarfod nesaf
- Esbonio y bydd yn gweithio gyda Lynne a Michael i symud pethau ymlaen unwaith eto ar y mater hwn
- Ategu pwysigrwydd gwthio mor galed ag y gallwn